

28/05/21

Annwyl Ddisgyblion, Rieni / Warcheidwaid,

Ar ddiwedd yr hanner tymor, hoffwn ddiolch i'n rhieni sydd yn barhaus yn sicrhau bod eich plant yn hyrwyddo ethos yr ysgol ble mae Parch, Cymreictod a Dyfalbarhad yn allweddol i lwyddiant ein disgyblion. Pleser yw bod yng nghwmni ein disgyblion sydd bob dydd yn gwneud y pethau bychain pwysig ac yn cyfrannu mor ardderchog at fywyd ym Mryn Tawe.

Mae gosod a chynnal safonau sylfaenol yn allweddol i lwyddiant unrhyw ysgol a diolch i'r disgyblion sydd yn barhaus yn ymdrechu i ddefnyddio'r iaith yn ddyddiol a braf yw clywed eu naturioldeb wrth siarad yn y Gymraeg. Heb os, defnydd dyddiol yw'r allwedd i wella ac i godi hyder ieithyddol, ta beth yw'r iaith - diolch am annog eich plentyn i ddyfalbarhau gyda'u Cymreictod.

Mae ymrwymiad disgyblion i'w haddysg yn allweddol i gyrraedd potensial yn yr hir dymor. Mae ymdrech ac agwedd at ddysgu yn greiddiol at y llwyddiant yma. Gweler ymrwymiad disgyblion yn eu gweithredoedd dyddiol drwy eu hymddygiad a'r ffordd maent yn trin eraill. Gwych yw gallu canmol cymaint o'n disgyblion am eu hagwedd, eu hymddygiad ac am drin pawb arall yn yr ysgol â pharch drwy "fod yn neis" pob dydd!

Mae ymddangosiad rhan fwyaf ein disgyblion yn destun balchder, ac yn sicr mae'r wisg newydd yn creu'r argraff orau o ran ymddangosiad eich plant. Diolch i chi fel rhieni am eu hannog ond hefyd am sicrhau eu bod yn cynnal y safonau uchaf yma. Rhwydd yw syrthio i demtasiwn i beidio â chydymffurfio, drwy wisgo dillad anaddas neu emwaith (e.e. treinyrs, hwdi, neu drwyn wisg), ond rhaid canmol y canran uchel o'n disgyblion am eu hagweddau aeddfed a chyfrifol o ran eu hymddangosiad destlus iawn - diolch!

Yn anffodus, nid yw pob disgybl yn cwrdd â'r safonau uchaf o ran yr egwyddorion creiddiol yma. Gwych byddai gweld agweddau ychydig iawn o'n disgyblion yn gwella tuag at y defnydd o'r Gymraeg, tuag at eu dysgu, tuag at barchu ei gilydd a thuag at eu hymddangosiad drwy gydymffurfio gyda'r disgwyliadau gwisg ysgol. Mae'r bartneriaeth ysgol a chartref yn nodwedd bwysig iawn yn cefnogi disgyblion i lwyddo ac ymbiliaf ar rieni i sicrhau bod eich plentyn chi yn hyrwyddo'r safonau pwysig yma ac felly yn cyfrannu'n bositif at ethos a safonau'r ysgol yn ddyddiol.

Edrychwn ymlaen at hanner tymor olaf, llwyddiannus ble mae ein safonau disgwylidig ni yn cael eu cynnal a'u hyrwyddo gan bob disgybl a rhiant.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddymuno'n dda i ddisgyblion bl.11eg fydd yn ein gadael cyn diwedd yr wythnos gyntaf ar ôl hanner tymor. Diolch i chi am eich cyfraniad gwych i fywyd Bryn Tawe, ond edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl i'r Chweched ym mis Medi. Bydd cyfle i chi ymweld â ni i drafod eich opsiynau yn llawnach yn gynnar ym mis Gorffennaf - cewch wybodaeth lawn pan fyddwn yn rhannu eich graddau ar y 18fed o Fehefin. I'r



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net

www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODD WYR
MEWN POBL

Aur



disgyblion fydd yn symud at brentisiaethau, i'r byd gwaith neu i'r coleg, pob dymuniad da i chi ar gyfer dyfodol hapus a llwyddiannus. Braff bydd eich gweld o dro i'w gilydd a chofiwch alw i'n gweld!

Diolch o galon i ddisgyblion blwyddyn 13eg yn yr un ffordd. Mae eich gweld yn datblygu i fod yr unigolion aeddfed, gweithgar a chyfrifol dros y 7 mlynedd ddiwethaf wedi bod yn bleser pur ac mae gennym nifer o atgofion melys am eich amser gyda ni ym Mryn Tawe. Diolch am gyfoethogi ein bywydau yn yr ysgol ac yn sicr bydd colled ar eich hôl. Dymunwn bob llwyddiant i chi ar eich antur nesaf ac am fywyd hapus a llwyddiannus iawn! Bydd croeso i chi yma ar unrhyw adeg a chofiwch daro i mewn i rannu eich anturiaethau gyda ni!

Yn olaf, dyda hanner tymor prysur iawn o'n blaenau, hoffwn eich atgoffa o rai dyddiadau allweddol:

Dyddiad	Gweithgaredd
GRADDAU WEDI'U PENNU GAN Y GANOLFAN DROS DRO – BL. 11-13	
09/06/21	Diwrnod olaf i ddisgyblion bl. 11 – seremoni ffarwelio yn y prynhawn.
10/06/21	Diwrnod olaf i ddisgyblion bl. 13 – seremoni ffarwelio yn y prynhawn.
18/06/21	Dosbarthu graddau i'r disgyblion.
30/06/21	Dyddiad olaf i ddisgyblion wneud cais i adolygu gradd. Byddwn yn rhannu gwybodaeth bellach gyda disgyblion a rhieni Bl. 11-13 am y broses apêl.
02/07/21	Graddau dros dro yn cael eu rhannu gyda CBAC.
HMS	
11/06/21	HMS – safoni a chymedroli Graddau wedi eu Pennu gan y Ganolfan
30/06/21	HMS Ymweliadau Pontio Blwyddyn 6
16/07/21	HMS
NOSWEITHIAU RHieni (rhithiol, gyda manylion ymuno i ddilyn)	
14/06/21	Blwyddyn 10
28/06/21	Blwyddyn 8
05/07/21	Blwyddyn 7
ERAILL	
14/06/21	Dechrau amserlen interim: Bl.9 yn dechrau eu cyrsiau TGAU Bl.12 yn trosglwyddo i gyrsiau Safon Uwch
15/07/21	Diwrnod olaf y flwyddyn academaidd i ddisgyblion 7-10 a 12eg

Ga i ddyfynnu hanner tymor hapus ac ymlaciedig i chi gyd ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl ar y 7fed o Fehefin.

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur

